



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gymunedol Llangynfelyn
Taliesin
Machynlleth
Ceredigion
SY20 8JG**

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2012

gan

Mr Goronwy Morris

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/06/12

Cyd-destun

Ysgol gynradd sirol ar gyrion pentref Taliesin, Sir Ceredigion, yw Ysgol Llangynfelyn. Mae'n gwasanaethu ardal eang gan dderbyn disgyblion o bentrefi cyfagos i fyny hyd at Landyfi ar ochr ddeheuol Dyffryn Dyfi, ardal wledig amaethyddol.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng pedair ac 11 oed. Nid oes darpariaeth feithrin yn yr ysgol ond mae bron bob un wedi derbyn addysg cyn dechrau yn yr ysgol. Addysgir yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Derbynnir disgyblion i'r ysgol ar ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pedwerydd pen-blwydd. Yn ystod yr arolygiad, roedd 21 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan ddau o athrawon amser llawn a dwy athrawes ran amser.

Disgrifir y dalgyrch fel un heb fod yn ffyniannus na dan anfantais economaidd a'r disgyblion heb fod yn freintiedig na'n ddfreintiedig. Iaith gartref yr holl ddisgyblion yw'r Saesneg.

Mae 3.8% o'r disgyblion wedi eu cofnodi gan yr ysgol fel rhai sydd â hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Sir Ceredigion a Chymru. Mae 10 o ddisgyblion (47%) wedi eu cofnodi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn uwch na chyfartaleddau Ceredigion a Chymru.

Yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd penodwyd pennaeth newydd i'r ysgol ym Medi 2010. Erbyn hyn mae ganddo gyfrifoldeb dros ddwy ysgol arall yn yr ardal. Fe gaiff ei gefnogi gan bennaeth cynorthwyol sydd hefyd yn athrawes yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llangynfelyn yn 2011-2012 yn £3,788. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £8,706 a'r lleiafswm yw £2,987. Mae Ysgol Llangynfelyn yn 31ain allan o'r 60 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Llangynfelyn yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'n dda;
- lefelau cymhelliant ac ymddygiad rhan fwyaf ohonynt yn dda;
- yr addysgu'n gyson gadarn a'r profiadau dysgu diddorol yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion;
- ethos cynhwysol, cartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel;
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles disgyblion a phwyslais da ar gysylltiadau rhyngwladol; a
- bod yr holl staff yn cydweithio'n hwylus ac effeithiol mewn ffordd sy'n dylanwadu'n bositif ar gyflawniad y disgyblion.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol yr ysgol.
- mae'r ysgol yn adnabod ei pherfformiad ei hun yn dda; a
- pharodrwydd ysgolion y clwstwr i gydweithio mewn cymuned dysgu proffesiynol effeithiol.

Argymhellion

Dylai'r ysgol:

- A1 sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn cyflawni ar y lefelau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2;
- A2 godi safonau yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2;
- A3 godi safonau ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith; a
- A4 darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro gweithrediad y cynllun ac yn adrodd i Estyn ar y cynnydd.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae cyfran y disgyblion saith mlwydd oed sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion mewn tair o'r bum mlynedd diwethaf. Yn 2011, roedd gyda'r uchaf yn y teulu. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 ymhlith y 25% uchaf mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r canran o ddisgyblion 11 mlwydd oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, yn gyffredinol hefyd wedi bod yn uwch nag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru mewn tair o'r bum mlynedd diwethaf. Yn 2011, cyflawnodd pob plentyn y lefel disgwyliedig yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl. Roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 50% isaf mewn tair o'r pedair blynedd flaenorol.

Yn y ddau gyfnod allweddol mae canran y disgyblion sy'n cyflawni ar y lefel uwch, wedi amrywio dros y pum mlynedd ddiwethaf. Yn gyffredinol, mae'r ganran sy'n cyrraedd y lefel uwch yn y Saesneg yn cymharu'n dda gydag ysgolion y teulu a Chymru. Mae'n tueddu i fod yn is na'r teulu a chyfartaledd Cymru yn y pynciau eraill.

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol. Fe welir y cynnydd da hwn yng nghyflawniad disgyblion yn eu gwaith, eu llyfrau ac mewn gwersi. Maent yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Mae'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoed a gallu. Mewn rhai agweddau ar eu gwaith, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent. Nid oes patrwm arwyddocaol o ran gwahaniaethau rhwng cyflawniad merched a bechgyn.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn barod iawn i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Mae bron bob un o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae eu medrau llafar yn datblygu'n fuan iawn. Lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sydd yn cyfathrebu'n rhydd ac yn hyderus yn y Gymraeg. Mae bron bob un yn cyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y Gymraeg. Erbyn blwyddyn 2 mae'r mwyafrif yn darllen testunau syml yn gywir gan ddefnyddio strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 yn darllen ystod o destunau syml yn Gymraeg gyda chywirdeb cynyddol. Byddant yn codi'r prif ffeithiau o destunau ac yn ymateb yn briodol i'r deunydd maent wedi ei ddarllen. Er hynny, lleiafrif sy'n darllen gyda

rhuglder a mynegiant. Mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod dda o lyfrau yn Saesneg yn gywir ac yn ystyrlon gan ddefnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion cynyddol, gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio prif lythrennau ac atalnodi'n gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, er bod llawer yn gwneud cynnydd yn eu gallu i ysgrifennu i sawl pwrpas, lleiafrif sy'n ysgrifennu'n fywiog a meddylgar ac yn arddangos cywirdeb cyson. Mae gwaith ysgrifennu llawer o'r disgyblion yn Saesneg yn glir a threfnus mewn ffurf greadigol a ffeithiol ar amrywiaeth o destunau. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau o waith estynedig yn y ddwy iaith. Yn gyffredinol, amrywiol yw safon taclusrwydd a llawysgrifen llawer o ddisgyblion yn y gwahanol bynciau.

Lles: Da

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r angen i fagu arferion personol iach gan gynnwys ffitrwydd. Mae brwdfrydedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen tuag at wisgo pedomedr i fesur pa mor fywiog y buont yn ystod y dydd yn enghraifft dda o lwyddiant yr ysgol i hybu'r agwedd hon. Mae canran y disgyblion sydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ffitrwydd, chwaraeon a gweithgareddau perthnasol yn uchel. Maent yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.

Mae llawer o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae eu medrau i wella eu dysgu eu hunain. Lleiafrif sydd â'r hyder a'r gallu i werthuso eu gwaith eu hunain.

Mae'r holl ddisgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn dda. Mae disgyblion o bob oed yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi bod yn is nag ysgolion tebyg. Dyheadau rhai teuluoedd i dderbyn addysgu hyblyg yw'r rheswm am hyn. Mae ymdrechion diweddar yr ysgol i godi canrannau presenoldeb a sicrhau prydlondeb wedi llwyddo. Bellach mae cyfraddau presenoldeb dros 95% ac mae bron bob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae'r cyngor ysgol yn rhan weithredol o wneud penderfyniadau, a chaiff safbwyntiau a syniadau disgyblion eu hystyried o ddifrif.

Trwy ystod o weithgareddau, y tu mewn a thu allan i'r ysgol, mae disgyblion yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a bywyd.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r athrawon yn darparu ystod gynhwysfawr o brofiadau dysgu diddorol y tu fewn a thu allan i'r ysgol, sydd ar y cyfan yn ymateb i anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r profiadau dysgu yn ymdrin yn briodol â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y

Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Rhoddir lle amlwg i ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion.

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu sefydlu'n gadarn ac yn sicrhau fod y disgyblion yn elwa o weithgareddau ysgogol a bywiog. Mae'r profiadau dysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n briodol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol ac yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Nid yw'r gweithgareddau bob amser yn herio disgyblion uwch eu gallu.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygiad medrau rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a medrau meddwl disgyblion ar draws y cwricwlwm a'r meysydd dysgu yn effeithiol yn y ddau ddsbarth. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygiad medrau llythrennedd Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen a'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 hefyd yn effeithiol. Nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygiad medrau llythrennedd yn y Gymraeg yn ymateb i anghenion disgyblion blwyddyn 3 a 4 yr un mor effeithiol. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn y ddwy iaith yn llwyr effeithiol.

Mae'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn gyson a brwdfrydig ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o Gymru yn llwyddiannus.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn nodwedd amlwg yn yr ysgol. Sicrha'r ysgol fod y disgyblion yn derbyn cyfleoedd cyson a diddorol i ymestyn eu gwybodaeth o faterion yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol a dinasyddiaeth fyd-eang trwy'r cwricwlwm a gweithgareddau diwylliannol ac elusennol. Enghraifft dda o hyn yw'r arfer cyson o groesawu ymwelwyr o dramor i sgwrsio gyda'r disgyblion.

Addysgu: Da

Mae rhan fwyaf yr addysgu yn gadarn. Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes dda ac yn disgwyl llawer gan bob disgybl. Mae perthynas waith cefnogol yn amlwg yn y ddau ddsbarth.

Mae'r athrawon yn paratoi gweithgareddau diddorol ac yn y rhan fwyaf o'r gwarsi mae cynllunio bwriadus a chwestiynu medrus. Gwneir defnydd da o adnoddau. Sicrheir cyfle da i ddatblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion. Defnyddir y cymhorthydd dosbarth yn dda i gefnogi disgyblion. Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r tasgau dysgu yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn sicrhau datblygiad ym medrau Cymraeg y disgyblion.

Ar y cyfan, mae ansawdd asesu, adrodd a chofnodi cyflawniad disgyblion yn dda. Mae'r adborth a gynigir gan athrawon ar lafar o ansawdd dda. Er hynny, nid yw'r adborth ysgrifenedig bob amser yn rhoi digon o gymorth i'r disgyblion wella'u gwaith. Gosodir targedau unigol ar gyfer pob disgybl mewn llythrennedd ac mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dechrau cael dylanwad positif ar safonau.

Mae'r broses o dracio cynnydd pob disgybl yn gynhwysfawr ac mae'r athrawon yn dadansoddi gwybodaeth am gynnydd y disgyblion yn drylwyr. Mae hyn yn golygu ymyrraeth gynnar a chynllunio priodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae rhieni yn datgan eu bod yn hapus â'r wybodaeth a gânt am gyflawniadau eu plant drwy adroddiadau a chyfarfodydd tymhorol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i hyrwyddo manteision byw yn iach ac i ddatblygu ffitrwydd disgyblion. Atgyfnerthir hyn yn effeithiol gan weithgareddau y tu allan i'r ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda. Hyrwyddir datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion yn effeithiol. Cyfranna'r disgyblion yn dda at gyfnodau addoli ar y cyd a chânt gyfle i fyfyrion ar y neges a gyflwynir.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol gwerthfawr ar faterion addysgol a lles gan gynnwys cymorth proffesiynol buddiol pan fo angen. Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion hyn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Adnabyddir yr anghenion yn gynnar a dewisir rhaglenni cefnogi buddiol ar gyfer y disgyblion hyn. Mae gweithdrefnau adrodd ar gynnydd y disgyblion hyn yn effeithiol. Gwneir defnydd da o asiantaethau allanol arbenigol yn ôl y galw.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgwr lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae yma ethos cyfeillgar a phwyslais da ar sicrhau cyfle cyfartal i'r cwricwlwm i bob un disgybl. Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydaddoldeb hiliol yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw brwdfrydedd yr ysgol wrth sicrhau cysylltiadau rhyngwladol.

Rhoddir sylw da i anghenion personol ac emosiynol y disgyblion.

Mae'r adeiladau yn cynnig amgylchedd ddysgu priodol ar gyfer y nifer o ddisgyblion. Mae'r ardal allanol tu cefn i'r ysgol yn adnodd gwerthfawr ac wedi ei datblygu'n ddyrchmygus ar gyfer addysg ac adegau chwarae'r plant.

Mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau yn cyfoethogi ac yn ysgogi dysgu yn llwyddiannus. Ceir amrywiaeth da o adnoddau sydd yn cael eu defnyddio yn effeithiol.

Caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer chwarae a dysgu.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff yn rhannu a gweithredu gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol yr ysgol. Mae'r pennaeth, sy'n gymharol newydd i'w swydd, yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cynnig cyfeiriad strategol eglur. Mae'r ysgol yn

gymuned drefnus, ac mae ei strwythurau a'i pholisïau yn glir. Mae cefnogaeth gadarn y pennaeth cynorthwyol yn ddylanwad pwysig ar ddatblygiad yr ysgol. Mae aelodau'r staff ar bob lefel yn glir ynghylch eu rolau ac yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau yn llwyddiannus i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu gynhwysol. Adlewyrchir hyn yn yr ethos cadarnhaol ar draws yr ysgol sydd yn cael effaith dda ar gyflawniad y disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth dda. Bu cyfraniad y corff yn allweddol wrth ddatblygu cyfeiriad strategol i'r ysgol mewn cydweithrediad â dwy ysgol gyfagos. Mae dealltwriaeth y llywodraethwyr o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg yn datblygu'n dda. Maent yn ymwybodol o'r materion sy'n codi o ddadansoddi data ac o adroddiad hunan arfarnu'r ysgol. Parhau i ddatblygu mae eu gallu i herio'r ysgol mewn meysydd y mae angen gwella'n bellach.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol cyfredol. Y mae hyn yn enwedig ym meysydd lles, codi safonau llythrennedd a chydweithio gydag ysgolion eraill fel cymunedau dysgu proffesiynol. Rhoddir sylw da i lais y plentyn ymhob elfen o fywyd yr ysgol.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r trefniadau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn dda. Mae'r broses yn drylwyr ac yn rhan reolaidd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae holl aelodau'r staff yn chwarae rhan weithredol yn yr arfarnu gan ystyried sawl ffynhonnell o dystiolaeth gan gynnwys edrych ar enghreifftiau o waith disgyblion, dadansoddiad gofalus o ddata ac arsylwi dysgu. Mae'r ysgol yn weithredol wrth geisio canfod barn dysgwyr, staff, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae datblygiadau diweddar o arfarnu ar draws y tair ysgol wedi cryfhau'r broses.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn gynhwysfawr ac yn cyfleu darlun gonest o sefyllfa gyfredol yr ysgol. Mae tueddiad yn yr adroddiad i orddisgrifio yn hytrach na bod yn arfarnol. Nid yw'r cyswllt rhwng deilliannau'r adroddiad hunan arfarnu â'r ffynonellau tystiolaeth bob amser yn amlwg.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn y cynllun gwella ysgol yn addas ac wedi eu ffocysu'n briodol ar wella safonau. Mae cyfrifoldebau am ddatblygu'r gwahanol flaenoriaethau'n glir. Nid yw'r meini prawf llwyddiant na'r camau gweithredol bob amser yn ddigon miniog i sicrhau cynnydd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda fel cymuned ddysgu. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol yn datblygu o fewn yr ysgol a gydag aelodau staff dysgu'r tair ysgol o fewn y clwstwr i gynllunio a thrafod anghenion disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r rhaglen monitro dilyniant mewn medrau darllen disgyblion y tair ysgol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar les a chyrrhaeddiad disgyblion. Ceir partneriaeth gref gyda rhieni. Maent yn gefnogol i'r ysgol ac yn cyfrannu'n frwdfrydig tuag at nifer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r wybodaeth gyson a rennir gyda hwy ynghlŷn â chynnydd eu plant.

Ceir cysylltiadau niferus â'r gymuned leol ac mae hyn yn cael dylanwad helaeth ar y profiadau dysgu. Daw aelodau o'r gymuned i'r ysgol i siarad â'r disgyblion i ehangu dealltwriaeth y disgyblion o fyd gwaith.

Mae partneriaeth dda gyda'r awdurdod lleol wedi sicrhau cefnogaeth werthfawr yn ystod cyfnod o newid.

Mae cydweithio da gyda'r cylch meithrin lleol. Mae hyn yn paratoi'r plant yn dda ar gyfer eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae partneriaeth strategol effeithiol yn datblygu o fewn y clwstwr ysgolion sydd dan ofal y pennaeth. Manteisir ar bob cyfle i gydweithio a defnyddir arbenigedd staff y safle, a staff o'r tair ysgol, er mwyn cynllunio a darparu'r profiadau ac adnoddau buddiol i'r disgyblion.

Ceir partneriaeth dda hefyd gyda'r ysgol uwchradd leol. Mae'r trefniadau yn effeithiol, er enghraifft, i safoni a chymedroli asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol ac i sicrhau trosglwyddo esmwyth i'r ysgol uwchradd.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r holl staff yn cydweithio yn dda ac yn rhannu eu harbenigedd yn effeithiol er budd yr holl ddisgyblion. Mae trefniadau da yn weithredol ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff, sy'n arwain at gyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae gan yr ysgol ystod helaeth o adnoddau dysgu a chânt eu defnyddio'n effeithiol.

Mae gwariant yn cael ei fonitro'n ofalus, gyda symiau penodol wedi eu clustnodi ar gyfer gweithredu bwriadau'r cynllun gwella ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin y data yn ofalus gan fod canlyniad un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ym mhob blwyddyn.

CA1

Yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1 yn 2011, cyflawnodd pob disgybl y lefel disgwylidig (lefel 2) yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwylidig yn y tri phwnc mewn cyfuniad wedi bod yn uwch na ffigurau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf.

Yn ystod y cyfnod, mae nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwylidig mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg wedi codi. Yn 2011, roedd gyda'r uchaf yn y teulu.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 ymhlith y 25% uchaf mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf.

Mae'r niferoedd sy'n cyflawni'r lefel uwch wedi amrywio dros y cyfnod. Yn 2011, mae'r ganran gyrhaeddodd lefel 3 yn uwch na'r teulu a chyfartaledd Cymru yn y tri phwnc. Ni chyflawnodd unrhyw blentyn lefel uwch na'r disgwyl yn y Gymraeg yn y pedair blynedd flaenorol. Mae'r ganran sy'n cyrraedd y lefel uwch ym mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch nag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru mewn dwy o'r blynedd hyn.

Nid oes patrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o gymharu â'r merched.

CA2

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r canran disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwylidig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn gyffredinol wedi bod yn uwch nag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru mewn tair o'r bum mlynedd diwethaf.

Yn 2011, cyflawnodd pob plentyn y lefel disgwylidig yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl. Roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 50% isaf mewn tair o'r pedair blynedd flaenorol.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn uwch nag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru yn y pedwar pwnc.

Dros gyfnod o bum mlynedd, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch yn y Saesneg yn cymharu'n dda gyda ffigurau'r teulu a Chymru. Yn gyffredinol, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is na ffigurau'r teulu o ysgolion a Chymru yn ystod y cyfnod hwn.

Nid oes patrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o gymharu â'r merched.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Holiaduron rhieni/gofalwyr

Derbyniwyd 12 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol ac o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae'r holl rieni a ymatebodd yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol ac o'r farn fod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae bron bob un yn cytuno neu gytuno'n gryf bod eu plant yn gwneud cynnydd da. Credant hefyd fod ymddygiad y disgyblion yn dda.

Mae pob rhiant o'r farn bod yr addysgu'n dda, bod staff yn trin pob disgybl yn deg a gyda pharch ac yn eu hannog i weithio'n galed ac i wneud eu gorau. Maent yn hapus â'r amrywiaeth sydd mewn gweithgareddau a gynigir iddynt.

Mae bron y cyfan yn teimlo fod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plentyn yn dysgu yn yr ysgol a bod cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion penodol. Mae pob rhiant yn cytuno neu gytuno'n gryf bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'u bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Mae rhan fwyaf yn nodi eu bod yn deall trefn gwyno'r ysgol a'r cyfan yn nodi eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â chodi unrhyw fater.

Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2 (11 disgybl). Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'r holl ddisgyblion yn cytuno gyda bron bob un o'r datganiadau yn yr holiadur i gyd. Er hyn, mae un disgybl nad yw'n teimlo fod gwaith cartref yn ei helpu i ddeall a gwella ei waith yn yr ysgol. Mae ychydig hefyd yn anghytuno fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Goronwy Morris	Arolygydd Cofnodol
Gwynoro Jones	Arolygydd Lleyg
Meinir Howells	Arolygydd Cymheiriaid
Hefin Jones	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Cwricwlwm Cenedlaethol

Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.